Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.police.uk

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**

# Cyfrifoldebau Statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â Chwynion am yr Heddlu

Cyfnod Adrodd: 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni gofynion y Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021

1.2 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu dair prif ddyletswydd mewn perthynas â chwynion heddlu, fel yr amlinellir isod:

- Awdurdod priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl
- Dyletswydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses gwyno effeithiol ac effeithlon
- Corff Adolygu Perthnasol ar gyfer rhai cwynion heddlu

1.3 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r adnoddau a'r prosesau a roddwyd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hynny a bydd yn rhoi sicrwydd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chwynion am yr heddlu.

1.4 Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion unrhyw gŵyn neu adolygiad penodol y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymdrin ag ef.

## 2.0 Dyletswyddau Statudol

### 2.1 <u>Awdurdod Priodol cwynion am y Prif Gwnstabl</u>

2.1 Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys yn gyfrifol yn statudol am ystyried cwynion a wneir yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yw sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hynny mewn modd rhesymol a chymesur.

2.2 Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 3 chwyn yn erbyn y Prif Gwnstabl. Fodd bynnag, nid oedd y cwynion a ddaeth i law yn bodloni'r meini prawf i gael eu cofnodi fel cwyn ffurfiol gan fod y cwynion yn addas i'w trin drwy broses arall. Gwneir penderfyniadau yn unol â chyhoeddiad Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ar drin cwynion yn erbyn Prif Swyddog. Cylchlythyr Focus yr IOPC, rhifyn 16 (policeconduct.gov.uk) <https://www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/documents/IOPC-Focus-16-chief-officer-allegations.pdf>

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## 3.0 Adolygiadau Cwynion SCHTh

3.1 Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Gwnaethant gyflwyno nifer o newidiadau a ddyluniwyd i gyflawni system gwynion sy'n canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid. Mae'n bwysig datgan mai nod y diwygiadau yw gwneud y system ddisgyblaeth yn fwy cymesur ac annog mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu o gamgymeriadau.

3.2 Ychwanegwyd at atebolrwydd lleol trwy newidiadau i rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae ganddynt rôl ganolog wrth benderfynu sut mae'r system gwynion yn gweithredu ar lefel leol, gan fod ganddynt yr opsiwn o ysgwyddo cyfrifoldeb uniongyrchol am rai swyddogaethau. Tra roedd apeliadau wedi cael eu trin yn flaenorol gan naill ai'r Prif Gwnstabl neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, mae'r hawl newydd i wneud cais am adolygiad naill ai i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Nod y newid hwn yw cynyddu annibyniaeth a thryloywder.

3.3 Mae'r Ddeddf yn darparu dewis o dri model, y gall y Comisiynydd ddewis eu mabwysiadu. Yn Nyfed-Powys, cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd **Model 1** yn cael ei fabwysiadu. Gellir gweld y rhesymeg dros y penderfyniad hwn ar wefan SCHTh Dyfed-Powys: 00206BBADA38200127145749 (dyfedpowys-pcc.org.uk).

3.4 Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gallant gyflwyno cais am adolygiad i'r Corff Adolygu Perthnasol, naill ai Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i fod yn gyfrifol am logio, cofnodi ac ymchwilio i gwynion ac am roi gwybod i achwynwyr am y cynnydd.

3.5 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yw'r corff adolygu perthnasol fel a ganlyn:

i. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw'r awdurdod priodol
ii. mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog (swyddog sydd â safle uwchlaw'r prif uwch-arolygydd)
iii. ni all yr awdurdod priodol fodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y cwynir amdano (pe bai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu ddisgyblu 145 neu na fyddai'n golygu amharu ar hawliau person o dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gweler yr eirfa)
iv. mae'r gŵyn wedi'i chyfeirio, neu mae'n rhaid ei chyfeirio, at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
v. mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu'n trin y gŵyn fel un a gyfeiriwyd (a elwir hefyd yn 'bŵer menter', gweler paragraffau 9.36 – 9.39)
vi. mae'r gŵyn yn deillio o'r un digwyddiad â chwyn sy'n dod o fewn ii-v
vii. mae unrhyw ran o'r gŵyn yn dod o fewn ii-vi

3.6 Mewn unrhyw achos arall y corff adolygu perthnasol yw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk



3.7 Allanoli Adolygiadau

3.8 Penderfynodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru allanoli adolygiadau ar sail gychwynnol, gan mai hwn oedd yr opsiwn mwyaf hyfyw yn ariannol a byddai'n caniatáu dealltwriaeth gychwynnol o lefel y galw, cyn i unrhyw benderfyniadau parhaol gael eu gwneud.

3.9 Arweiniwyd proses dendro ar y cyd ar gyfer allanoli adolygiadau cwyn gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Rhoddwyd y cytundeb i Sancus. Mae'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn ar gael ar wefan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys: [complaint-review-tender-decision-log-2022-002.pdf (dyfedpowys-pcc.org.uk)]

3.10 Hysbysir pob unigolyn bod yr adolygiadau cwynion yn cael eu rhoi i sefydliad annibynnol. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan SCHTh Dyfed-Powys (yn adran Ffurflen Adolygu SCHTh): https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/contact-us/compliments-and-concerns/.

3.11 Mae SCHTh wedi datblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd i sicrhau bod penderfyniadau adolygu yn gadarn ac yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth cwynion a chanllawiau statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae'r adolygiadau'n cael eu hystyried yn annibynnol gan Sancus (gweler adran 3.9), yna mae'r adolygiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag argymhellion Sancus a'r canlyniad a ysgrifennwyd gan y Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth. Yna mae'r Prif Weithredwr yn ystyried y canlyniad arfaethedig cyn ei ddatgelu. Mae staff SCHTh sy'n rhan o'r broses adolygu yn mynychu gweithdai a digwyddiadau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfoes â deddfwriaeth a chanllawiau statudol.

3.12 Yn ogystal, pan ystyrir pob adolygiad o gŵyn, mae SCHTh yn cadw cofnod o'r holl argymhellion/gwersi a ddysgwyd a wnaed i Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys (ASP). Mae SCHTh yn sicrhau ein bod wedi derbyn ymateb boddhaol gan Heddlu Dyfed-Powys, sy'n mynd i'r afael â'r argymhelliad/gwers a ddysgwyd a nodwyd, cyn diweddaru'r achwynydd a'r cofnod gyda'r manylion hynny. Yna ystyrir y cofnodion hynny ar gyfer unrhyw gyfleoedd i wella ansawdd ymatebion i gwynion yn y dyfodol.

3.13 Yn ystod y broses adolygu, gall adolygydd adnabod anghysonderau sydd ddim yn newid y ffaith bod y canlyniad yn rhesymol a chymesur, ond lle y gellir gwella'r gwasanaeth o ran ymdrin â'r gŵyn. Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anghysonderau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol. Bydd rhannu'r wybodaeth hon gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ei ganiatáu, fel corff goruchwylio cilyddol, i asesu pa un ai a oes themâu a thueddiadau ar draws yr adolygiadau mae'r ddau ohonom yn gweld, a pha un ai a oes angen inni gymryd camau penodol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch trin cwynion. Er

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

enghraifft, patrwm o achosion lle'r oedd y canlyniadau'n rhesymol a chymesur ond lle'r oedd y gwasanaeth cwsmeriaid yn anfoddhaol. Mae hyn hefyd yn galluogi'r ddau gorff goruchwylio i rannu arfer da rhyngddynt eu hunain a gydag awdurdodau priodol sy'n helpu i ddatrys anfodlonrwydd achwynydd mewn modd rhesymol a chymesur.

3.14 Mae SCHTh yn cynhyrchu adroddiad chwarterol ar berfformiad adolygiadau sy'n ystyried amseroldeb adolygiadau ac unrhyw themâu goruchwylio a nodir. Cyhoeddir y wybodaeth yn chwarterol ar wefan SCHTh.

3.15 Adolygiadau 2023/24

3.16 Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, daeth 59 o adolygiadau i law, sydd ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol pan gafwyd 51 o adolygiadau. Mae 57 o adolygiadau cwynion wedi'u cwblhau gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 5 ohonynt wedi parhau o'r flwyddyn flaenorol.

3.17 Mae'r rheoliadau newydd sy'n ymwneud â chwynion am yr heddlu yn rhoi un elfen i'r Corff Adolygu Perthnasol ei hystyried sef a oedd canlyniad y gŵyn am yr heddlu yn rhesymol ac yn gymesur.

3.18 Os bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn penderfynu bod y canlyniad a ddarparwyd gan yr Heddlu yn rhesymol ac yn gymesur, ni chaiff yr adolygiad ei gadarnhau. Os bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn canfod nad yw'r canlyniad yn rhesymol ac yn gymesur, gall:

- argymell bod yr awdurdod priodol yn ei gyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, os na chyfeiriwyd y gŵyn o'r blaen
- argymell bod yr awdurdod priodol yn ymchwilio i'r gŵyn
- gwneud argymhelliad o dan baragraff 28ZA, Atodlen 3, Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (argymhelliad gyda'r bwriad o unioni anfodlonrwydd achwynydd, gweler paragraffau 17.15 – 17.20).

3.19 O'r 57 adolygiad a gwblhawyd, cafodd 4 eu cadarnhau, ond ni chafodd 53 eu cadarnhau. Arweiniodd 4 adolygiad at argymhellion a nodwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae 7 adolygiad yn cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol newydd, oherwydd dyddiad cyflwyno'r cais am adolygiad.

## 4.0 Sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n dal y Prif Gwnstabl i Gyfrif

4.1 Y Prif Gwnstabl yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer pob cwyn a wneir am swyddogion, staff a gwasanaethau o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i dirprwyo i'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac fe'i cyflawnir gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu.

4.2 Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd i sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl system gwynion heddlu effeithiol ac effeithlon ar waith, a'r Bwrdd Plismona

yw'r fforwm lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cyfarfu'r Bwrdd Plismona ar 14 achlysur. Sicrhaodd rhaglen waith ymlaen llaw fod y cyfarfodydd hyn yn bwrpasol ac yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Plismona yn mabwysiadu dull thema, lle mae pob cyfarfod yn canolbwyntio ar faes busnes penodol; wedi'i nodi a'i flaenoriaethu yn ôl y galw gweithredol, yr effaith ar y gymuned a risg. Ym mis Medi 2023, roedd maes ffocws a fu'n ystyried perfformiad yr Adran Safonau Proffesiynol sydd â chyfrifoldeb dros ystyried cwynion a chamymddwyn ar ran y Prif Gwnstabl. Gellir dod o hyd i gofnodion y cyfarfodydd drwy'r hyperddolen ganlynol: Bwrdd Plismona (dyfedpowys-pcc.org.uk). <https://dppopcc.azurewebsites.net/cy/atebolrwydd-a-chraffu/llywodraethu/bwrdd-plismona/>

## 4.3 Craffu Pellach

4.4 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi (AHGTAEF)
Cynhelir craffu pellach o'r swyddogaeth cwynion heddlu gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ac ymchwiliadau trefnedig gan AHGTAEF. Mae adroddiadau ystadegol o'u craffu a'u canfyddiadau ar gael ar eu gwefannau unigol. Mae ymatebion Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i'r asesiadau wedi'u cyhoeddi fan hyn: https://dppopcc.azurewebsites.net/en/transparency/force-performance/ Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n derbyn diweddariadau cynnydd ar weithredu argymhellion perthnasol a wnaed gan AHGTAEF mewn Byrddau Plismona a chyhoeddir cofnodion y cyfarfodydd hynny ar wefan SCHTh.

4.5 Adroddiadau amseroldeb

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 3 neges ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan yr heddlu o dan reoliad 13 o Reoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020, lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol"

4.6 Mae Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn craffu ac yn cefnogi gwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Trwy gydol 2024-2025, parhaodd y Panel i ddwyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyfrif am berfformiad ei swyddogaethau statudol a'r cyflawni yn erbyn blaenoriaethau ei Gynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau a enwebwyd gan y pedwar cyngor yn ardal yr heddlu, ac o leiaf dau aelod annibynnol. Cynhaliwyd pum cyfarfod ffurfiol o'r Panel yn ystod y flwyddyn. Gellir dod o hyd i gyfarfodydd blaenorol ar wefan Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:
https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/cyfarfodydd/.

## 4.7 Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Cytunwyd yn y Bwrdd Plismona y byddai Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol yn cael ei sefydlu i gryfhau goruchwyliaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o gwynion, camymddygiad a fetio.

Mae'r cylch gorchwyl yn darparu gwybodaeth am amlder y cyfarfodydd a sut y bydd y bwrdd yn gweithredu. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024 a rhoddwyd sicrwydd ar gyfer y meysydd pwnc canlynol:

- Perfformiad cwynion yr heddlu ar y cyd â data cenedlaethol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Achosion o gamymddwyn
- Uned Gwrthlygredigaeth
- Fetio
- Adolygiad Angiolini
- Adolygiadau cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Hapsamplu cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ar gasineb at fenywod, camymddwyn a fetio
- Perfformiad cwynion yr heddlu ar y cyd â data cenedlaethol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
- Achosion o gamymddwyn
- Uned Gwrthlygredigaeth
- Fetio
- Adolygiad Angiolini
- Adolygiadau cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Hapsamplu cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ar gasineb at fenywod, camymddwyn a fetio

4.8 Pryderon Cymunedol

Mae gan yr OPCC broses ar waith i weithredu cyfathrebu, anawsterau a chwynion a dderbynnir sydd o natur weithredol neu yn ymwneud â swyddogion o dan radd y Prif Gwnstabl – mae'r cyfathrebu hwn yn gyfrifoldeb y Prif Gwnstabl ac mae'n mynd y tu allan i faes gweithredol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae'r OPCC yn ystyried pob cyfathrebu a dderbyniwyd ac yn darparu cyngor perthnasol i'r unigolyn, gan gynnwys y broses ar gyfer gwneud cwyn i'r Grŵp, manylion y department perthnasol neu'r broses berthnasol i'w gyfathrebu a/neu unrhyw wybodaeth/gorffennol berthnasol am ragor o wybodaeth ar wefan y Grŵp. Mae'r cyfathrebu hwn wedi'i gofrestru ac yn cael ei ystyried gan yr OPCC.

4.9 O fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu, ymrwymodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddarparu ymateb proffesiynol i gwynion (a chymhellion) sy'n hawdd eu cyrchu, yn dryloyw ac sy'n cynnig ymatebion cyflym ac yn gymesur. Mae'r OPCC yn ystyried anghydfod a godwyd gan aelodau'r cyhoedd ynghylch amrywiol faterion y maent wedi'u hwynebu o fewn ein ardal Grŵp; gelwir hyn yn 'Pryderon Cymunedol.' Mae 'Pryderon Cymunedol' yn cael eu cofrestru gan ddefnyddio categori:

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

- 'Pryderon Personol' fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, pryderon traffig neu erthylu domestig;
- 'Pryderon Trefniadol' fel CCTV, cyllid/y gyllideb neu anghyffyrddiaeth gyda chadwyni; ac
- 'Pryderon Eraill' fel pryderon lleol/cenedlaethol neu bryderon nad ydynt yn gysylltiedig ag heddlu.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cofrestrodd y OPCC gyfanswm o 412 pryder cymunedol, sy'n yr un nifer â'r flwyddyn flaenorol.

## 5.0 Hap Samplu Cwynion SCHTh

5.1 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn adolygu data cwynion i nodi unrhyw themâu mewn cwynion neu nifer gyson uchel o gwynion mewn maes plismona penodol. Rhoddir ystyriaeth i waith pellach y gallai fod angen ei wneud i fynd i'r afael â phryderon ailadroddus. Gall hyn gynnwys hapsamplu, dadansoddiad annibynnol neu gymharu data lefel uchaf â heddluoedd tebyg eraill ac ati. Nod y gweithgaredd hapsamplu yw craffu ar berfformiad proses reoli cwynion yr heddlu. Mae nifer yr achosion o gwynion am yr heddlu sy'n cael eu hystyried gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn golygu y byddai'n anymarferol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu oruchwylio pob achos cwyn. Felly, mae hapsamplu yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyflawni ei gyfrifoldeb goruchwylio a monitro o dan y ddeddfwriaeth.

5.2 Ers mis Medi 2023 mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn hapsamplu'n fisol yr achosion cwynion sydd wedi cau. Adolygwyd 34 o achosion yn ystod y cyfnod hwn sydd wedi mynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Cwynion wedi'u cau fel "camau gweithredu eraill"
- Troseddau casineb
- Cwynion y tu allan i Atodlen 3
- Camau gweithredu'r heddlu yn dilyn cyswllt â'r heddlu
- Ymchwiliadau
- Gwahaniaethu

## 6.0 Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

6.1 Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu'n casglu gwybodaeth gan bob heddlu yng Nghymru a Lloegr am y mathau o gwynion maen nhw'n derbyn a faint o amser maen nhw'n cymryd i ymdrin â nhw. Mae hyn yn caniatáu i Swyddfa

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.police.uk

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu nodi arfer da, tueddiadau a gwahaniaethau y mae angen inni ystyried.

6.2 Cyhoeddir data cwynion Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu bob chwarter. Mae'n galluogi Heddluoedd a SCHTh i gymharu data gyda'r heddluoedd tebycaf ac yn darparu data ar gyfer yr un cyfnod y llynedd sy'n ein galluogi i nodi themâu i graffu arnynt.

6.3 Darperir data hefyd ar adolygiadau cwynion SCHTh ac mae'n rhoi arwydd o fodlonrwydd â chwynion drwy roi canran o adolygiadau cwyn a gyflwynwyd o gymharu â nifer y cwynion a gofnodwyd.

6.4 Gellir dod o hyd i ystadegau chwarterol a blynyddol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar eu gwefan, trwy'r hyperddolenni canlynol: Ystadegau Chwarterol: Heddlu Dyfed-Powys | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu Ystadegau Blynyddol: Cwynion heddlu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu: Ystadegau ar gyfer Cymru a Lloegr

## 7.0 Cyhoeddiad

6.1 Yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021, cyhoeddir y wybodaeth a'r adroddiad hwn yn flynyddol ar wefan Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.